# Gwasanaeth Sul yr Urdd 2021

### Thema: Cydraddoldeb – Rôl merched yn gweithio dros heddwch a chyfiawnder

### Lluniwyd gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)

Eleni, cynigir deunydd ar gyfer Gwasanaeth Sul yr Urdd ar ffurf sydd ychydig yn wahanol. Awgrymir math syml o becyn cymorth gyda nifer o ddewisiadau hyblyg. Awgrymir ffurf litwrgaidd traddodiadol ar gyfer cynllunio'r oedfa yma ond gellir cynllunio'r addoliad yn ôl gofyn yr amgylchiadau lleol a natur yr achlysur mewn golwg.

Yn naturiol, cyfeirir at waith Urdd Gobaith Cymru yn ystod 2019 gan hoelio sylw arbennig ar y Codi Llais a gafwyd yn Neges Ewyllys Da eleni. Byddem yn gwerthfawrogi cyfeirio at hynny, ond ceir rhyddid i fod yn greadigol.

Ar gyfer cyfoethogi'r hyn a gynigir yma cyfeiriwn at yr adnoddau addoli eang a ddarperir gan Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru. Dyma'r ddolen ar gyfer lawrlwytho adnoddau digidol: https://www.ysgolsul.com/?page_id=4315

Cyfeiriwn hefyd at yr adnoddau addoli sydd ar gael ar wefan Cymdeithas y Cymod. Dyma'r ddolen: http://www.cymdeithasycymod.org.uk/adnoddau.htm .

## Gwasanaeth Uwchradd

Posib cyfuno'r gwasanaeth yma gyda'r Gwasanaeth Cynradd os mae'r gynulleidfa yn addas.

| **I gynnal y gwasanaeth hwn, bydd angen:** |
|---|
| Copi o'r nodiadau hyn |
| Copi o'r lluniau ar ddiwedd y nodiadau hyn neu'r sleidiau PwyntPwer |
| Smotiau lliwgar gludiog – coch, glas a gwyrdd – ar gyfer ryw 70% o'r bobl ifanc sydd yn bresennol |
| Yr adnoddau ategol, os mynnwch |

**Paratoi:**

Cyn y gwasanaeth, paratoi stribedi gyda smotiau lliwgar ar gyfer rhyw 70% o'r bobl ifanc sydd yn bresennol: rhai gydag un smotyn, rhai gyda dau. Dosbarthwch y smotiau rhyngddynt ar hap ar ddechrau'r gwasanaeth.

1. **Croeso a gweithgaredd cychwynnol:**

**Arweinydd:**

Croeso i wasanaeth Sul yr Urdd, 2021! Heddiw rydym yn mynd i rannu storïau am rai pobl yng Nghymru a'r tu hwnt sydd wedi gweithio i wneud y byd yn fwy teg a heddychlon.

Gofynnwch iddynt beth yw ystyr y gair '**cydraddoldeb'**. Gwahoddwch atebion ganddynt  Mae'n golygu cael yr un cyfleoedd, adnoddau a  hawliau – e.e. bwyd maethlon, gofal gan deulu, addysg, iechyd, yr hawl i fynegi barn a chymryd rhan yn y gymdeithas – pwy bynnag ydych neu le bynnag ydych yn byw….

Dyma enghraifft fach….A ydych wedi derbyn smotyn lliwgar ar ddechrau'r gwasanaeth?  Nid yw smotyn lliwgar yn golygu llawer – ond dychmygwch fod y smotyn yn golygu eich bod chi â'r hawl i fynd ar wibdaith neu glywed eich hoff band. Os oeddech yn ddigon lwcus i dderbyn dau smotyn – cewch fynd ar wibdaith neu ymweliad am ddim.  Os nad oes gennych smotyn – wel, chewch chi ddim byd!  Sut mae hyn yn gwneud i chi deimlo?  A ydy hi'n deg? Beth pe byddai smotyn yn golygu nad oeddech yn cael gwneud rhywbeth – e.e. eistedd yn y seddi gorau ar y bws neu'r sinema, derbyn y gofal gorau mewn ysbyty?  Sut byddai hyn yn gwneud i chi deimlo?

Mae anghydraddoldeb yn effeithio'n wael ar fywydau unigolion
a chymdeithasau ac yn achosi teimladau o annhegwch ac anghyfiawnder.

## 2. Darlleniad: rhan o Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2021

Thema Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni oedd cydraddoldeb i ferched.  Mae'r Neges yn bwerus ac ein hatgoffa, wrth i ni geisio datrys problemau'r byd megis newid hinsawdd, na fedrwn wadu cyfleoedd i 50% o boblogaeth y byd – sef merched.  **Dyma ran o'r Neges:**

Hawliau merched yw hawliau dynol

Hawliau dynol yw hawliau merched

Ni allwn achub y byd os nad yw'r byd yn gyfartal

Mae hyn yn fwy na hashtag.

Ail-feddyliwn ein geiriau

Trown y negyddol yn gadarnhaol

Nid pengaled ond pwerus.

Nid hunanbwysig, ond hyderus.

Nid cegog ond awdurdodol

Nid emosiynol ond angerddol

Ni yw ieuenctid Cymru yn sefyll gyda'n chwiorydd ar draws

y byd

Mae coronafeirws wedi stopio'r cloc.

Defnyddiwn y normal newydd i greu dyfodol gwell.

Dyfodol o addysg i bob merch.

Dyfodol o ferched llawn hyder.

Dyfodol cyfartal, o gefn gwlad i'r dinasoedd,

ar draws y byd.

3. **Gweddi:**

   O Arglwydd Iesu, mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni yn ein hatgoffa pa mor bwysig yw'r geiriau rydym yn eu defnyddio wrth ein gilydd. Mae gan y rhain y pŵer i greu loes neu hybu hyder. Gallant fod yn destun tristwch neu lawenydd. Dysg i ni fod yn garedig wrth ein gilydd a thrin ein gilydd â pharch bob amser. Amen.

## 4. Wir Ystyr Anghydraddoldeb:

**Arweinydd:**

Rydym yn deall bod cydraddoldeb i ferched yn bwysig, ond beth mae hyn yn ei olygu go iawn?

Naill ai trwy rannu Sleid PwyntPwer rhif 2 neu drwy ddarllen y gosodiadau ar dudalen 7, cyflwynwch rai ffigyrau am anghydraddoldeb merched a gofyn i'r bobl ifanc ystyried yn dawel a ydynt yn wir ai peidio. Ar ôl cyflwyno'r gosodiadau i gyd gofynnwch: 'Yn eich barn chi, faint o'r rhain sydd yn wir? (0, 1, 2, 3, 4, 5 – i gyd?') Gofynnwch iddynt godi llaw ar gyfer y nifer sydd yn wir, yn eu barn nhw.

Datgelwch fod y gosodiadau i gyd yn wir. A ydy hyn yn syndod? A ydy rhai yn peri mwy o syndod nag eraill? Mae rhai ffeithiau ychwanegol ar Sleid 3 (tudalen 7 – 8), a gallwch edrych ar y rhain hefyd – a'u trafod. Oes'na ffactorau eraill i'w hystyried?

Rwy yn siŵr bod rhai o'r ffigyrau hyn wedi peri sioc i chi ond pam mae hyn yn bwysig? Gofynnwch iddynt am eu barn cyn datgelu'r rhesymau ar Sleid PwyntPwer 4 neu ar dudalen 8.

## 5. Emyn: 'Rho imi nerth i wneud fy rhan' (Gweler y geiriau ar dudalen 12)

## 6. Merched, Heddwch a Chyfiawnder….

**Arweinydd:**

Gofynnwch i'r plant: A fedrwch chi enwi rhai merched sydd wedi gwneud pethau anghyffredin? Arhoswch am atebion, yna naill ai ddangos Sleid PwyntPwer 5 iddynt gyda rhai enghreifftiau o ferched sydd wedi gweithio dros iechyd, addysg, heddwch a chyfiawnder – neu dangos y lluniau ar dudalen 9. A fedr y bobl ifanc enwi rhai ohonynt?

Yr atebion yw:

i. Betsi Cadwaladr – a ganwyd ger y Bala yn 1789. Gweithiodd fel nyrs ochr yn ochr â Florence Nightingale yn y Crimea
ii. Greta Thunberg – ymgyrchydd ifanc dros yr amgylchfyd

iii. Beti Campbell – prifathrawes ddu gyntaf yng Nghymru
iv. Malala Yousafzai – ymgyrchydd dros hawliau merched, yn enwedig yr hawl i gael addysg
v. Merched Comin Greenham – pwy yw'r rhain?  Cewch eu stori anhygoel yn y man….

Mae'r merched hyn wedi cyflawni pethau anghyffredin oherwydd iddynt gael y cyfleoedd i wneud hyn (neu weithiau er gaethaf y ffaith nad ydynt wedi cael y cyfleoedd hynny!) Diolch i Dduw amdanynt!

7. **Stori Merched Comin Greenham:**

Beth am ferched sydd wedi gweithio dros heddwch? Edrychwch ar y llun olaf ar Sleid 5.  Pwy yw'r menywod hyn, yn eich barn chi?  Ble maen nhw a beth maen nhw yn ei wneud?  Gwrandewch ar y stori ryfeddol hon …..

**Dychmygwch ….**

Yn gyntaf, dychmygwch eich bod chi yn byw yng Nghymru ar ddiwedd y 1970au / dechrau'r 1980au.  Roedd y Rhyfel Oer rhwng yr Undeb Sofietaidd a'r Unol Daleithiau ar ei anterth.  Roedd yr ofn am ryfel niwclear a beth allai hyn wneud i ddynoliaeth ac i'r ddaear yn realiti cyson.  Yng nghanol y sefyllfa hon, fe wnaethpwyd penderfyniad gan lywodraeth y DU i ganiatáu i 96 o daflegrau Cruise niwclear yr Unol Daleithiau gael eu cadw yn safle milwrol Comin Greenham yn Berkshire, Lloegr. Ar 5 Medi 1981, cyrhaeddodd grŵp o Gymru, "Merched dros Fywyd ar y Ddaear" y safle, gyda'r bwriad o herio, drwy drafod, y penderfyniad  hwn. Dyma fwy o fanylion am eu stori…..

*(Gallwch ddangos y lluniau ar dudalen 10 neu ar Sleid 6 o'r PwyntPwer wrth adrodd y stori)*

Wrth iddynt gyrraedd, fe gyflwynon nhw lythyr i Gadlywydd y Ganolfan oedd yn datgan, ymysg pethau eraill: '*Rydym yn ofni am ddyfodol ein plant a dyfodol y byd byw sy'n sail i holl fywyd y planet.'*

Pan gafodd eu cais am drafodaeth ei anwybyddu, fe sefydlon nhw Wersyll Heddwch tu allan i'r ffens o gwmpas Maes Awyr Milwrol Comin Greenham yr Awyrlu Brenhinol. Nid oedd yr awdurdodau yn disgwyl hynny, ac fe baratôdd hyn y ffordd ar gyfer

protest hir ac eofn a barhaodd am 19 mlynedd. Roedd cael merched yn byw tu allan i ganolfan niwclear weithredol 24 awr y dydd yn dod â phersbectif newydd i'r mudiad heddwch - roedd yn rhoi arweiniad a ffocws parhaol iddo. Pan oedd Unol Daleithiau America a'r Undeb Sofietaidd yn cystadlu am ragoriaeth niwclear yn Ewrop, roedd Gwersyll Heddwch Merched Comin Greenham yn cael ei weld fel dylanwad adeiladol. Roedd ymrwymiad y merched i fod yn ddi-drais ac i ddidueddrwydd yn rhoi awdurdod i'r brotest oedd yn anodd ei hanwybyddu – daeth newyddiadurwyr o bob cwr o'r byd i'r gwersyll i adrodd am y pethau oedd yn digwydd yno.

Roedd yr amodau byw yn gyntefig. Roedd byw yn yr awyr agored o dan bob math o dywydd yn anodd. Doedd ganddyn nhw ddim trydan, dim ffonau, na dŵr tap, ac roedden nhw'n gorfod dioddef cael eu troi allan a dioddef ymosodiadau vigilante yn rheolaidd. Er gwaetha'r amodau, daeth merched o wahanol rannau o Brydain a thramor i dreulio amser yn y gwersyll ac i fod yn rhan o'r gwrthsafiad yn erbyn arfau niwclear. Roedd rhaid rhoi'r gorau i fyw'n gyfforddus er mwyn ymrwymo i'r gwrthsafiad.

Roedd ymddygiad ac uniondeb y brotest gan Wersyll Heddwch y Merched yn allweddol i'r penderfyniad i symud y Taflegrau Cruise o Gomin Greenham. O dan y Cytundeb Lluoedd Niwclear Canolradd (INF), hedfanwyd y taflegrau yn ôl i Unol Daleithiau America yn ogystal â phersonél Awyrlu'r Unol Daleithiau yn 1991/92.

**Cwestiynau i'w hystyried:**

1. Beth ydych chi'n ei feddwl o weithredoedd y merched?

2. Pa ffyrdd sydd yn agored i bobl i leisio'u barn yn ddemocrataidd, ac a fedr y dulliau hyn fod yn effeithiol? A yw protestiadau yn gallu bod yn effeithiol?

3. A yw hi'n iawn torri'r gyfraith os ydych chi'n teimlo'n gryf dros rywbeth?

4. Beth fyddech chi'n fodlon ei ddioddef dros achos rydych chi'n credu'n gryf ynddo?

**Gwybodaeth bellach:**

Mae ICAN (yr Ymgyrch Ryngwladol i Ddiddymu Arfau Niwclear) yn glymblaid o sefydliadau anllywodraethol mewn cant o wledydd sy'n hyrwyddo glynu at gytundeb gwahardd arfau niwclear y Cenhedloedd Unedig. Cafodd y cytundeb byd-eang arloesol yma ei fabwysiadu yn Efrog Newydd ar 7 Gorffennaf 2017 ac ar 22 Ionawr eleni daeth i rym.

Mae dros 50 o wledydd yn y byd wedi ymrwymo i gael gwarad ar arfau niwclear. Nid yw'r DU yn eu plith. Beth fedrwn ni ei wneud am hyn?

**Emyn: ‘ Heddwch ar ddaear lawr…’ (Gweler y geiriau ar dudalen 12)**

**Myfyrdod i gloi: (addasiad o rif 33, Cynghorion a Holiadau’r Crynwyr):**

‘A ydych yn effro i’r ffordd mae pobl yn cael eu trin yn wahanol, oherwydd pwy neu beth ydynt neu oherwydd yr hyn maen nhw yn eu credu? Cofiwch fod pawb yn ddynol ac yn werthfawr. Ceisiwch ddeall beth yw achosion anghyfiawnder neu wrthdaro a chwiliwch am syniadau a datrysiadau newydd a chadarnhaol. A ydych yn gweithio i greu cymdeithas gyfiawn a thosturiol lle caiff pawb gyfle i ddatblygu eu galluoedd ac i feithrin eu hawydd i wasanaethu?’

# Adnoddau

**Gweithgaredd 4 – Wir Ystyr Anghydraddoldeb:**

**Cydraddoldeb – Gwir neu Gau?**

1. Mae merched yn cynhyrchu hyd at 80% o’r bwyd mewn gwledydd datblygol ond yn berchen ar lai na 25% o’r tir ffermio.

**2.** Mewn gwledydd datblygol mae un ym mhob tair merch wedi priodi cyn cyrraedd ei phen-blwydd yn 18.

**3.** Yn 10 glwad dlotaf y byd, mae 9 o bob 10 merch heb gwblhau’r ysgol.

**4.** Mae oddeutu 70% o’r bobl sydd mewn swyddi lleiafswm cyflog yn y DU yn ferched.

**5**. Yng Nhymru dim ond 28% o gynghorwyr lleol, 18% o Arweinyddion Cyngor a 27% o Aelodau Cabinet sy’n ferched.

**6.** Yn yr 20 mlynedd ers datganoli yng Nghymru does dim yr un Aelod Cynulliad wedi bod oedd yn fenyw, yn groenddu ac o leiafrif ethnig.

**Cydraddoldeb Rhyw – Rhai Ffeithiau Eraill:**

**Mewn gwledydd datblygol:**

- Beichiogrwydd a rhoi genedigaeth yw prif achos marwolaeth merched rhwng 5 a 19 blwydd oed
- Mae 64% o'r 5 miliwn person ifanc sydd yn byw gyda HIV yn fenywod
- Mae rhyw 35% o ferched ledled y byd yn dioddef oherwydd trais corfforol neu rywiol

**Yng Nghymru:**

- Mae 55% o ferched rhwng 7 a 21 blwydd oed yn dweud bod stereoteipio ar sail rhyw yn effeithio ar eu gallu i ddweud eu dweud.
- Y mae bwlch cyflog o 15% rhwng y rhywiau.
- Y mae 52% o fenywod yn adrodd eu bod yn dioddef aflonyddu rhywiol yn y gweithle.

**Rhai rhesymau pam mae cydraddoldeb yn bwysig:**

- Mae gwledydd sydd yn ymdrin â bechgyn a merched yn fwy cyfartal yn cynhyrchu mwy o fenywod sydd yn arweinwyr ac yn wyddonwyr.
- Mae gwledydd sydd yn ymdrin â'r ddau ryw yn fwy cyfartal yn ennill mwy o fedalau yn y Gemau Olympaidd.
- Mae merched sydd wedi derbyn addysg yn tueddu priodi yn hwyrach a chael llai o blant sydd yn fwy iachus
- Mae merched sydd yn derbyn addysg yn ennill mwy o gyflog ac yn medru cynnal eu teuluoedd yn well.



## Gweithgaredd 6 – Merched, Heddwch a Chyfiawnder

1.



2.



3.

4.

**Atebion:**

1. Betsi Cadwaladr






8. <u>**Gweithgaredd 7 - Stori Merched Comin Greenham**</u>**:**



**Gweler hefyd –

Fideo ar YouTube gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Cymer Rhondda ar Ferched Greenham:





https://www.youtube.com/watch?v=gHiuE3VoeZM





Erthygl ar Gomin Greenham a Helen Thomas (ymgyrchydd a fu farw) ar wefan Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru: https://www.wcia.org.uk/helen-thomas-greenham-memorial/.

## Gweithgaredd Ategol

### Betty Williams and Mairead Corrigan (Gogledd Iwerddon)

Er nad ydynt yn dod o Gymru, mae hanes Betty Williams a Mairead Corrigan hefyd yn un sydd yn medru ysbrydoli pobl ifanc am botensial merched i greu newid. Mae eu stori nhw isod, a gallwch ddefnyddio hyn fel gweithgaredd ategol, os mynnwch.

Stryd ym Melfast, Gogledd Iwerddon, ym mis Awst, 1976.  Caiff gyrrwr car sydd yn aelod o'r IRA ei saethu'n farw wrth ffoi rhag milwyr Prydeinig.  Mae'n colli rheolaeth o'r car, sydd yn rhedeg i mewn i grŵp teuluol sydd mas am dro.  Caiff dau blentyn eu lladd yn syth bin – un arall ei niweidio'n ddifrifol a'r fam hefyd.

Yn sgil y ddamwain erchyll hon cafwyd gwrthadwaith cryf yn erbyn y trais oedd wedi ymledu dros Ogledd Iwerddon, gyda lladd a dial yn digwydd ar y ddwy ochr, a phobl ddiniwed yn cael eu hanafu a'u lladd yn y broses.  Betty Williams, gwraig tŷ, oedd arweinydd y protest.  Yr oedd hi'n dyst i'r ddamwain ar ôl clywed saethu. Ymunodd Mairead Corrigan â hi, a hithau'n fodryb ifanc i'r plant a fu farw.

*Betty Williams (ar y chwith) a Mairead Corrigan*

Fe arweiniodd y ddwy fenyw hyn orymdeithiau dros heddwch ac yn erbyn trais – gorymdeithiau lle cerddai Protestaniaid a Phabyddion ochr yn ochr â'i gilydd. Trwy fynnu na fyddai datrysiadau na chyfiawnder cymdeithasol yn dod trwy drais, fe wnaethon nhw gynnau gobaith yng nghalonnau pobl bod heddwch parhaol yn bosibl.

Fe enillodd y ddwy'r Wobr Heddwch Nobel yn 1977.  Wrth gyflwyno'r wobr iddynt, meddai Egil Aarvik, is-gadeirydd pwyllgor y Wobr, eu bod nhw "wedi dangos i ni beth gall pobl gyffredin ei wneud i hyrwyddo heddwch". Roeddynt yn ddigon dewr i gymryd y cam cyntaf. "Fe wnaethon nhw hyn yn enw dynoliaeth a chariad tuag at eu cymydog, a chan sylweddoli bod rhaid i rywun ddechrau maddau …. Fe gymeron nhw'r camau hyn mewn cyd-destun lle'r oedd casineb a dial wedi achub y blaen. "Gweithred ddewr ac anhunanol a roddodd ysbrydoliaeth i filoedd…"

O'r gwrthdystiad hwnnw datblygodd 'The Peace People', mudiad sydd yn dal i fodoli yng Ngogledd Iwerddon ac sydd yn gweithio dros gymdeithas gyfiawn a heddychlon trwy ddulliau di-drais hyd heddiw.  Gallwn dybio na fyddai datblygiadau megis Cytundeb Dydd Gwener y Groglith wedi bod yn bosibl heb bobl fel Betty Williams a Mairead Corrigan (Maguire).

**Rhai cwestiynau i'w hystyried:**

1. Beth sydd yn eich taro chi fwyaf am stori y ddwy fenyw hyn?
2. Sut, yn eich tyb chi, oedden nhw yn teimlo wrth arwain y protestiadau?
3. A oeddynt yn llwyddianus?

## Yr Emynau

**Rho imi nerth i wneud fy rhan  (E. A. Dingley; c. W. Nantlais Williams)**

Rho imi nerth i wneud fy rhan

I gario baich fy mrawd;

I weini'n dirion ar y gwan

A chynorthwyo'r tlawd.

Ehanga 'mryd, a gwared fi

Rhag culni o bob rhyw,
Rho imi weld pob mab i Ti
Yn frawd i mi, O! Dduw.

Gad imi weld dy wyneb Di,
Ym mhob cardotyn gwael,
A dysgu'r wers i wneuthur hyn
Er mwyn dy gariad hael.

**Heddwch ar Ddaear Lawr** **(**Seymour Miller a Jill Jackson cyf. Harri Williams)

Heddwch ar ddaear lawr, gan ddechrau'n fy nghalon i,

heddwch ar ddaear lawr, yr hedd a fwriadwyd i ni;

a Duw'n Dad trugarog, brodyr oll ŷm ni,

cerddwn oll gyda'n gilydd, mewn hedd a harmoni.

Dechrau'n fy nghalon i, a dechrau y foment hon,

ar hyd fy nhaith drwy'r byd, rwy'n addo yn ddwys a llon

i greu bob munud a byw bob munud mewn hedd a harmoni

heddwch ar ddaear lawr, gan ddechrau'n fy nghalon i.